CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES
DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL
CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION

Anerchiad Llywyddol

Sir Emyr Jones Parry GCMG FInstP PLSW

20 Mai 2015

Cymrodyr, annwyl gyfeillion, Fellows, Friends…Croeso eto i'r cyfarfod arbennig o Gymdeithas Ddysgedig Cymru.

Wrth edrych yn ôl gall y sefydlwyr fod yn fodlon iawn ar gyflawniadau niferus y Gymdeithas mewn pum mlynedd. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Syr John Cadogan, y Llywydd cyntaf ac i Dr Lynn Williams, y fydwraig gyntaf ac yna Ysgrifennydd Gweithredol sefydlu'r Gymdeithas.

Rwy'n credu ei bod yn iawn fy mod yn cydnabod ac yn diolch i Swyddogion a Chyngor y Gymdeithas am eu gwaith dros y flwyddyn. Mae arnom ddyled i bob un o'r rhai hynny sydd wedi cyfrannu at ein gweithgareddau, yn arbennig i aelodau'r paneli a fu'n craffu ar enwebiadau ac a gynigiodd y garfan gyfoethog sydd wedi eu hethol yn Gymrodyr yn awr.

Hoffwn groesawu'r Athro Peter Halligan fel Prif Weithredwr a Gwen Lloyd Aubrey i'w swydd newydd fel Clerc. Ynghyd â Dr Sarah Morse a Dr Georgia Burdett mae gennym staff dygn sy'n ein gwasanaethu'n dda.

Yn dilyn yr etholiadau eleni, mae gan y Gymdeithas gyfanswm o 387 o Gymrodyr bellach, y mae 15% ohonynt (58) yn fenywaidd. Wrth gwrs, caiff etholiad ei bennu yn ôl haeddiant a chlod, ond mae hefyd yn hanfodol bod Cymdeithas genedlaethol yn cynnwys Cymru gyfan a'i holl brifysgolion, yn ogystal â chydnabod gallu'r ddau ryw. Roedd 40% o enwebiadau eleni ar gyfer ymgeiswyr benywaidd - cynnydd o'r 13% yn yr etholiad blaenorol, a thystiolaeth o effaith argymhellion Gweithgor y Gymdeithas ar gydbwysedd rhwng y rhywiau, dan gadeiryddiaeth y Fonesig Teresa Rees. Cynnal y cynnydd hwn fydd yr her.

Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i gydnabod teilyngdod er mwyn teilyngdod, lle bynnag y bydd yn bodoli, gan sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac felly pwysigrwydd cydnabod ysgolheictod ar draws yr holl ddisgyblaethau, sefydliadau Cymreig, masnach, y celfyddydau, a gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Ystyriwch werth cyfoes cymdeithas ddysgedig. Pam mae ein Cymdeithas Ddysgedig yn bwysig i'r Cymrodyr, i'r gymuned academaidd, i ysgolheictod ac i Gymru?

- Mae cymdeithasau dysgedig yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod rhagoriaeth. Ni ddylem fyth ymddiheuro am adnabod ac annog gwaith ysgolheigion rhagorol. Yn wir, fe ddylem lawenhau ac ymfalchïo ein bod yn cefnogi dawn a haeddiant.

- Oherwydd eu ffocws traws-ddisgyblaethol nodweddiadol a'u hannibyniaeth, mae gan gymdeithasau dysgedig ran herfeiddiol bwysig i'w chwarae mewn perthynas ag ymchwil ac addysgu yn y DU.

- Yn gyffredinol ac yn wahanol i swyddogaeth sefydliadau unigol, mae cymdeithasau dysgedig yn helpu i drosi ymchwil ac ysgolheictod yn gymunedau proffesiynol o ymarferwyr, i ysbrydoli myfyrwyr ysgol a choleg i ystyried gyrfaoedd ac i hyrwyddo addysg a hyfforddiant ar lefelau israddedig, graddedig ac ôl-ddoethurol.

- Mae addysg uwch wedi dod yn hynod gystadleuol. Mae cymdeithasau dysgedig yn cynnig dimensiwn ychwanegol sy'n seiliedig ar gydweithredu ac ar gymorth a lles cyffredin.

Felly beth mae ein cymdeithas ddysgedig yn ei olygu i Gymru?

- Rydym yn cydnabod ansawdd yr ysgolheictod sy'n ein gwlad ac ysgolheictod sy'n gysylltiedig â Chymru.

- Rydym yn annog academyddion ar bob cam o'u gyrfaoedd.

- Rydym yn gynyddol yn cynrychioli'r gymuned yng Nghymru ac yn cefnogi ei holl ddimensiynau gwahanol. Er enghraifft, dan arweinyddiaeth yr Athro Wynn Thomas rydym wedi dechrau canolbwyntio ar Astudiaethau Cymreig ac ar argymell mwy o astudiaeth mewn maes sy'n bwysig i adnabyddiaeth Cymru ac i adeiladu cenedl. Bydd mwy o ganolbwyntio ar Astudiaethau Cymreig yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o bwy ydym.

- Rydym yn gwneud cyfraniad cynyddol at 'gymell tawel' yn y DU ac yng Nghymru, gan hyrwyddo rhwydweithiau rhyngwladol o ddiddordeb mewn sefydliadau, diwylliant a gwerthoedd Cymreig. Mae'r rhain yn helpu i gynyddu gallu Cymru i gorffori ac elwa ar ymchwil partïon eraill yn y rhwydweithiau hyn a'i gallu i ddenu ysgolheigion a myfyrwyr rhyngwladol o ansawdd uchel.

- Rydym yn gymdeithas genedlaethol, ond mae'n rhaid inni fod yn rhyngwladol yn ein rhagolygon. Ni allwn fforddio bod yn ynysig. Yn hytrach, ein rôl yw ehangu gorwelion.

- Yn wahanol i'r Gymdeithas Frenhinol neu'r Academi Brydeinig, rydym yn cynrychioli pob disgyblaeth ac yn darparu fforwm traws-ddisgyblaethol ar gyfer rhannu a thrafod gwybodaeth a threfnu ei bod ar gael i sectorau eraill gan gynnwys y sector cyhoeddus, ysgolion a gwneuthurwyr polisi. Mae gennym gyfrifoldeb i helpu i adeiladu galluogrwydd academyddion, ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi yn eu disgyblaethau, ac i weithio gyda chymdeithasau a sefydliadau proffesiynol.

Mae Cymru wedi dod yn genedl fwy hyderus ers 1998. Dylai hyn gael ei adlewyrchu gan fwy o werthfawrogiad o ansawdd ein hysgolheictod a chyflawniadau ein prifysgolion. Mae angen i ni fod yn fwy hyderus a phendant wrth hyrwyddo'r sector yng Nghymru, er bod hynny yn hanfodol fel rhan o frand Addysg Uwchaf y DU.

Mae hyn yn berthnasol yn rhyngwladol ac adref, o ystyried y pwerau a ddatganolwyd i Gymru.

Nid oes raid atgoffa'r gynulleidfa hon fod y sector Addysg Uwch yn y DU yn gyffredinol ac yng Nghymru yn gythryblus. Mae'n wahanol iawn i'r drefn oedd yn bodoli pan aeth y mwyafrif ohonom i brifysgol am y tro cyntaf. Er hynny, mae llawer o'r newidiadau yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae graddfa a chyflymder y newid yn achosi ansicrwydd. Mae'r ddibyniaeth ar ffioedd dysgu fel y brif ffynhonnell incwm yn achos pryder ac yn beryglus a dweud y gwir. Mae ariannu sefydliadau unigol yn rhy ddibynnol ar nifer y myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio. Mae gan benderfyniadau gan y llywodraeth yng Nghaerdydd neu Lundain ganlyniadau uniongyrchol ond yn aml annisgwyl.

Mae gan y Gymdeithas Ddysgedig swyddogaeth sy'n ategu at swyddogaethau ein prifysgolion unigol. Gallwn gynnig barn ac arbenigedd mewn maes lle mae pŵer wedi ei ddatganoli, ac ar bynciau fel ymchwil, y mae Lundain yn dal yn gyfrifol amdani. Rydym yn gwneud hynny'n ddiduedd a heb ffafriaeth wleidyddol. Mewn ffaith

mae Adolygiad Diamond wedi ymestyn y tu hwnt i gymorth ffioedd myfyrwyr ac at ddyfodol y sector yng Nghymru. Roedd ein cyflwyniad yn gynnig penodol oedd wedi ei drafod yn ofalus ac a gafodd dderbyniad da. Mae'n argymell cymorth i'r myfyrwyr hynny sydd ei angen, waeth ble maen nhw'n astudio. Byddai hefyd yn darparu mwy o sicrwydd incwm i'r prifysgolion y mae gennym ddiddordeb allweddol yn eu cynaliadwyedd.

Mae llawer i fod yn gadarnhaol amdano ynghylch perfformiad ymchwil yng Nghymru. Cyfran Cymru o'r 1% o'r erthyglau a enwir uchaf yw 0.7%, dros ddwywaith mor uchel â'r disgwyl o'r gyfran gyhoeddi cyffredinol o 0.3%. O ran cysylltiadau â diwydiant, mae gan Gymru'r lefel uchaf o fusnesau sy'n dechrau a sgil-gynnyrch am bob uned o Wariant Gros ar Ymchwil a Datblygu (GERD) ar gyfer cenhedloedd y DU, a'r lefel uchaf o Ddatgeliad Eiddo Deallusol am bob uned GERD, yn 2011, ar gyfer gwledydd cyfansoddol y DU. Yn ei adroddiad ar gyfer y Gymdeithas Ddysgedig yn 2013, pwysleisiodd Robin Williams y neges gadarnhaol am ansawdd ymchwil yng Nghymru. Cafodd hyn ei adlewyrchu yng nghanlyniad REF2014, ble cafodd dros 75% o'r ymchwil a gyflwynwyd ei graddio i fod ar flaen y gad ar y llwyfan rhyngwladol (4 seren) neu yn ardderchog yn rhyngwladol (3 seren). O ran y mesur o effaith newydd, fe sgoriodd prifysgolion Cymru'n arbennig o dda, gydag ymron i hanner yr ymchwil a gyflwynwyd yn cael ei graddio i fod ar flaen y gad ar y llwyfan rhyngwladol ac yn uwch na chyfartaledd y DU. Mae'r ffeithiau hynny'n gwrth-ddweud rhagdybiaethau ffug bod prifysgolion Cymru yn "tanberfformio o ran ansawdd a maint eu hymchwil." Ond mae'n wir nad yw Cymru wedi bod yn sicrhau grantiau digonol gan y cynghorau Gwyddoniaeth a Meddygol sy'n gwario llawer o arian; er gwaethaf ymdrechion i gyflwyno mwy o gynigion. Nid yw hyn yn syndod. Y ffaith syml yw bod diffyg o ran galluogrwydd ymchwil yng Nghymru ar gyfer disgyblaethau STEMM fel meddygaeth glinigol, bio-wyddorau, ffiseg, peirianneg a mathemateg o'u cymharu â chenhedloedd eraill. Er hynny mae Cymru eisoes yn cyflawni'n uwch yn nhermau cynhyrchiant, effaith ac ansawdd ymchwil. Meddyliwch faint yn fwy y gellid ei gyflawni gyda rhagor o adnoddau.

Mae'r Gymdeithas hefyd wedi ymateb i wahoddiadau gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno barn mewn gwahanol feysydd. Mae eich Cyngor yn ystyried bod rhoi cyngor pwyllog, gwybodus ac arbenigol yn gyfraniad pwysig i'r broses ddemocrataidd mewn deddfwrfa un siambr. Byddwn yn anelu at wella ein rôl, ac er mwyn gwneud hynny, bydd angen i ni dynnu ar arbenigedd ein cymrodoriaeth.

Wrth gwrs, mae'n rhaid i'r Gymdeithas fod yn annibynnol o blaid wleidyddol ac ni fydd y sefyllfa honno yn cael ei pheryglu. Ond nid yw hynny'n golygu na all y Gymdeithas weithio'n gynhyrchiol gyda llywodraeth pan fydd yr amcanion yn cael eu rhannu a lle bod diddordeb cyffredin.

Ar ôl yr etholiad cyffredinol bydd y ddadl am aelodaeth Prydain o'r Undeb Ewropeaidd yn dwysau. Bydd eich Swyddogion yn monitro pa effaith y gall hyn ei gael ar fuddiannau ein Cymrodoriaeth. Mae un o'n Cymrodyr, yr Athro Borysiewicz, Is-Ganghellor Prifysgol Caergrawnt, eisoes wedi tynnu sylw at yr effaith niweidiol y gallai gadael yr UE ei gael ar incwm ymchwil ac ar gydweithrediad ymchwilwyr Prydain gyda chydweithwyr Ewropeaidd.

Wrth edrych ymlaen, mae dyfodol eich Cymdeithas yn ddisglair ac yn gadarnhaol.

Rydym yn disgwyl i'r Siartr Frenhinol gael ei ddyfarnu yn y man. Bydd y symudiad hwn o fod yn gwmni cyfyngedig yn dangos goruchafiaeth, sefydlogrwydd a pharhauster. Rydym yn ymestyn ein cysylltiadau â chymdeithasau dysgedig eraill. Yn hanfodol, rydym am i'r Gymrodoriaeth fod o arwyddocâd arbennig i'r rhai sy'n cael ei hethol yn rhan ohoni. . Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i gyflawni gweithgarwch ym mhob un o'n prifysgolion. Mae gwella ôl ein troed ledled Cymru yn hanfodol ar gyfer Cymdeithas genedlaethol, fel y mae cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.

Yn ddiweddar gwnaethom gynnal Symposiwm llwyddiannus iawn ym Mhortmeirion ar economeg cenhedloedd a rhanbarthau ymylol. Dan stiwardiaeth yr Athro John Wyn Owen, rydym yn cynnig cynnal symposia pellach o'r fath. Rydym hefyd yn ystyried cynlluniau ar gyfer cyfres o ddarlithoedd a thrafodaethau nodedig ar gyfer cynulleidfaoedd ehangach.

Rwy'n gobeithio y bydd Cymrodyr yn gwerthfawrogi'r ymdrechion a wneir i gyfathrebu - nid yn unig i ddisgrifio ein gweithredoedd a'n gweithgareddau, ond i ddarparu gwybodaeth am ddatblygiadau cyfredol, perthnasol.

Mae'r wefan yn cael ei hailwampio a bydd 'In Brief' yn ohebiaeth reolaidd a fydd yn cael ei hanfon at Gymrodyr. Ar yr un pryd, rydym am harneisio talentau'r Gymrodoriaeth.

Mae llawer o waith i'w wneud ac mae adnoddau'n brin. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r rhai hynny sy'n rhoi cymorth ariannol i ni. Ond mae adnoddau, ariannol a phersonél, yn parhau i fod yn gymedrol. Mae'r Gymrodoriaeth wedi tyfu gan 119% dros bum mlynedd, ond mae lefelau staffio wedi aros fwy neu lai'r un fath. Felly rhaid i ni addasu ein gweithgareddau'n unol â hynny, a cheisio cywain rhagor o gymorth ariannol.

Rydym yn hynod o uchelgeisiol er hynny. Byddai sicrhau Teitl Brenhinol yn y dyfodol yn gydnabyddiaeth bellach ac yn gyfartal â Chymdeithasau eraill. Mae cymaint o bethau y gallwn eu gwneud i annog, ysgogi a chynrychioli ysgolheigion. Mae gennym gyfle i ddangos manteision y Gymdeithas er lles pawb. Ar hyn o bryd rydym yn cynllunio adnabyddiaeth ehangach o ysgolheictod yng Nghymru trwy lansio dwy fedal newydd; un a fyddai'n cydnabod a hyrwyddo merched mewn gwyddoniaeth, a'r llall yn cydnabod llwyddiant gyrfa gynnar ar draws y tri phrif ddosbarth disgyblaeth.

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn anymddiheurol elit, ond nid yw'n elitaidd. Mae'n cydnabod ac yn cynrychioli rhagoriaeth Mae'n cael ei yrru gan deilyngdod, gan werthfawrogi'r dimensiwn cenedlaethol a byd-eang, ac mae'n deall ein bod yn byw mewn amgylchedd hynod gystadleuol. Mae harneisio a datblygu sgiliau deallusol yn gyfraniad hanfodol i'r genedl ac i'w chymdeithas a'i heconomi. Mae'r cyfraniad eisoes yn sylweddol. Ond mae'n bosib gwneud llawer mwy os yw'r adnoddau ar gael Dylem fod yn uchelgeisiol ar gyfer y Gymdeithas ac ar gyfer Cymru.

Dylai ymroddiad y Gymdeithas i ragoriaeth a haeddiant sbarduno uchelgais pobl fedrus, yn arbennig pobl ifanc. Mae cyflenwi mwy o ymchwil ac addysgu o'r radd flaenaf yn gyfraniad hanfodol er lles pawb.

Diolch.